GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Diweddariad am y brechlyn
# Vaccination Update






*Cylchlythyr Wythnosol* *Weekly Newsletter* CYHOEDDIAD 9: wythnos **15/03/2021**

## Cynnydd Wythnosol (8 - 15 Mawrth)

**Rydym bellach wedi rhoi 278,628 o frechlynnau** (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail ddos) **ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd.**

Cawsom wythnos lwyddiannus yr wythnos ddiwethaf, gan frechu dros chwarter miliwn o bobl ar draws ein Bwrdd Iechyd! Gwnaethom gychwyn darparu brechiadau yng Nghanolfan Eglwys y Drindod yng Nghasnewydd, a byddwn yn parhau i'w defnyddio yr wythnos hon. Rydym nawr wedi brechu 75% o Grŵp 7 (pobl 60-64 mlwydd oed).

Rydym eisoes wedi darparu 58,750 o ail ddosiau o Pfizer. Rydym yn awyddus i ddod â'r cyfnod rhwng dosau Pfizer i lawr o 11-12 wythnos, lle bynnag mae'r cyflenwad yn caniatáu. Ein nod yw rhoi ail ddosau'r brechlyn Pfizer i'r rheiny a gafodd eu brechlyn cyntaf rhwng 7 Rhagfyr a 21 Chwefror erbyn diwedd mis Mawrth. Dylai'r rheiny a gafodd eu dos cyntaf o'r brechlyn Oxford AstraZeneca ddisgwyl cael eu hail dos 11-12 wythnos ar ôl hynny, oni bai bod rhesymau clinigol unigol i gynnig cyfnod byrrach.. Bydd y rhaglen yn dechrau cyflwyno apwyntiadau ar gyfer ail ddos yr Astra Zeneca o 29 Mawrth.



### Gwaith Celf Arbennig

Rydym yn falch o rannu'r gwaith celf arbennig hwn gyda chi o Aneurin Bevan, Sylfaenydd y GIG, gan Nathan Wyburn. Mae'r darlun wedi'i greu gan ddefnyddio pacedi gwag o'r brechlyn wedi'u hailgylchu. Creodd Nathan y gwaith celf hwn i'w arddangos yng Nghanolfan Brechu Torfol Cwmbrân, ac i ddiolch i'n staff sy'n gweithio mor galed. Hoffem ddiolch i Nathan am ei haelioni a'i waith celf ystyriol.

https://www.facebook.com/AneurinBevanHealthBoard/videos/770995203622026




## Os ydych chi wedi cael eich brechlyn

Mae'n cymryd amser i'ch corff ddatblygu amddiffyniad ar ôl unrhyw frechlyn.**Mae'n bwysig eich bod yn parhau i ddilyn yr holl ganllawiau diogelwch** i amddiffyn eich hun. Hyd yn hyn, nid ydym yn gwybod a fydd y brechlyn Covid-19 yn eich atal chi rhag cael eich heintio â'r feirws, a'i drosgwlyddo i eraill.

**Cyfanswm nifer y brechlynnau Covid-19 wedi eu rhoi ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail ddos)**

**278,628**

**Cyfanswm y dos cyntaf 219,878**

**Cyfanswm yr ail ddos 58,750**

(hyd at 15/03/2021)

### FFIGYRAU BRECHU

(hyd at 15/03/2021)

| | |
|---|---|
| **Pobl 80 oed a'n hŷn** | 94.8% |
| **Pobl 75-79 mlwydd oed** | 95.6% |
| **Pobl 70-74 mlwydd oed** | 95.6% |
| **Pobl 65-69 mlwydd oed** | 92.6% |
| **Grŵp 6 (Agored i Niwed)** | 67.9% |
| **Pobl 60-64 mlwydd oed** | 76.2% |

## Y brechlyn a thawelwch meddwl




Rydym eisiau i bawb deimlo'n gyfforddus pan fyddant yn cael eu brechu, felly rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw bryder diwylliannol, ofn nodwyddau, neu orbryder. Mae ein staff brechu yn hynod ystyriol ac mae gennym fannau preifat arbennig yn ein canolfannau brechu os hoffech gael eich brechu yn breifat.

Gwisgwch ddillad ymarferol, llac ar ddiwrnod eich brechiad fel ei bod yn rhwydd cyrraedd rhan uchaf eich braich.

Mae'n bwysig cael dau ddos o'r brechlyn i roi'r amddiffyniad hirdymor gorau i chi. Cadwch eich cerdyn brechlyn yn ddiogel a gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ag ef i'ch apwyntiad ar gyfer eich ail ddos.

## "Dim byd i boeni amdano"



Dyma Alvin. Yn wreiddiol o Jamaica, mae wedi bod yn byw yng Nghasnewydd ers 60 blynedd. Derbyniodd Alvin ei ail ddos o'r brechiad Covid-19 yng Nghanolfan Frechu Casnewydd. Daeth Joan, ei ferch, gydag ef, ac mae hi'n gweithio yn Ysbyty Brenhinol Gwent.
Roedd Alvin yn hapus iawn â'r ffordd yr oedd pethau'n gweithio mor rhwydd. Dywedodd: "Does dim byd i boeni amdano. Ar ôl fy mrechiad cyntaf, roedd fy mraich ychydig yn boenus, ond mae popeth yn iawn".

## Chwalu'r Mythau #1

**Myth:** "Mae'r brechlyn yn cynnwys cynnyrch anifeiliaid."
**Ffaith: Nid oes unrhyw un o frechlynnau COVID-19 Prydain yn cynnwys unrhyw gynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid, gan gynnwys unrhyw gynhyrchion o foch.**
Cefnogir rhaglen frechu COVID-19 Prydain gan Gymdeithas Feddygol Islamaidd Prydain, Cyngor Hindŵaidd y DU, a Bwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain. Gellir dod o hyd i wybodaeth am gynhwysion brechlynnau Oxford-AstraZeneca, Pfizer-BioNTech a Moderna ar daflenni gwybodaeth i gleifion.

**Mwy o wybodaeth am ofalwyr di-dâl, ewch i:** https://bipab.gig.cymru/coronafeirws/brechlyn-ar-gyfer-covid-19/gofalwyr-di-dal/

Am ragor o wybodaeth, ac i ganfod ym mha grŵp blaenoriaeth ydych chi, ewch i: https://www.gov.uk/government/publications/priority-groups-for-coronavirus-covid-19-vaccination-advice-from-the-jcvi-30-december-2020

Cyhoeddir ffigyrau brechu dyddiol gan Iechyd Cyhoeddus ar eu gwefan: https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary

Mwy a wybodaeth a Chwestiynau Cyffredin ar ddarpariaeth, cymhwysedd a diogelwch y brechiad, ewch i: https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/

## Trefn Brechlynnau

| | |
|---|---|
| 80 oed a hŷn | Meddygfeydd<br>Meddyg Teulu |
| 72-79 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 70-71 oed | Meddygfeydd |
| Grŵp 4 | Meddygfeydd |
| 65-69 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 60-64 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 55-59 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 52-54 oed | Canolfannau Brechu Torfol |
| 50-51 oed | Meddygfeydd |
| Yn Gaeth i'r Tŷ | Timau Symudol |
| Grŵp 6 | Meddygfeydd |

## Apwyntiadau

I'r rhai sy'n 65-69 oed, neu'n 72-79 oed, rhowch wybod i ni os nad ydych wedi cael eich gwahoddiad am frechiad COVID-19 drwy lenwi'r ffurflen ar ein gwefan https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/aged-72-79-and-not-received-your-invitation/

Os ydych yn 70-71 oed, 80 oed neu hŷn, yn Hynod Fregus yn Glinigol neu yng Ngrŵp 6, ac wedi'ch cofrestru â meddyg teulu yng Ngwent, cysylltwch â phractis eich meddyg teulu os nad ydych wedi cael eich gwahoddiad.

Mae'r brechlyn ar gael drwy apwyntiad yn unig.

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch brechlynnau COVID-19 yng Ngwent ar gael ar ein tudalen brechlyn COVID-19 https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine.